

Y PWYLLGOR PERSONÉL

22 Tachwedd 2017

Yn bresennol: Y Cynghorydd DGM James (Cadeirydd)
Mr A Archer (dirprwy i Mrs J James), Mrs G Hayward, Dr R
Heath-Davies, y Cynghorydd PJ Morgan a'r Cynghorydd A
Wilcox.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 1.30pm – 1.45pm)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Mrs D Clements, y Cynghorydd M Evans, Mrs J James a'r Cynghorydd S Yelland.

2. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

3. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2017 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2017.

4. Y diweddaraf ar Benodi'r Swyddog Monitro a Chynnig i Benodi Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro

Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Prif Weithredwr, gan na chafwyd unrhyw geisiadau am swydd y Swyddog Monitro, y gofynnwyd iddo gymryd nifer o gamau er mwyn symud ymlaen. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am hyn.

Roedd y Swyddog Monitro presennol wedi cytuno i barhau yn y swydd ar ôl ei ddyddiad ymddeol ar 30 Tachwedd 2017, a oedd yn datrys, dros dro, y broblem gyfreithiol o fethu â bod â Swyddog Monitro. Fodd bynnag, roedd trafodaethau ar y gweill gydag awdurdodau lleol eraill gyda golwg ar gael gwasanaethau eu Swyddog Monitro neu eu Dirprwy Swyddog Monitro hwy.

Roedd yr adolygiad o ddisgrifiad swydd y Swyddog Monitro wedi awgrymu fod y rôl yn ehangach na'r hyn y gellid ei ystyried yn waith craidd, a'i fod yn cael cymorth sylweddol gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd. Felly, roedd posibilrwydd o leihau gofynion y rôl i ganolbwyntio ar dasgau a oedd yn hanfodol i Swyddog Monitro eu gwneud, gyda'r tasgau eraill yn cael eu gwneud gan Ddirprwy Swyddog Monitro.



Gellid penodi i rôl y Dirprwy o blith y staff presennol a byddai'n rhoi mwy o ddarpariaeth i'r Awdurdod ac o bosibl mwy o hyblygrwydd o ran cael gwasanaethau gan Awdurdod neu wasanaeth arall, neu o ran penodi Swyddog Monitro. Cynigiwyd gwneud hyn dros dro am 12 mis, gydag adolygiad yn cael ei gynnal wedi hynny i asesu pa mor effeithiol y bu. Argymhellwyd talu Lwfans Cyfrifoldeb o £1,200 y flwyddyn yn ychwanegol at gyflog arferol y cyflogai. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi cysylltu â Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd yr Awdurdod ynghylch llenwi'r rôl hon.

Gofynnodd yr Aelodau am gwmpas rôl y Swyddog Monitro o ystyried y gostyngiad arfaethedig yn nifer y diwrnodau gweithio. Atebodd y Prif Weithredwr fd rhwng 25 a 30 diwrnod y flwyddyn yn cael eu trafod ac y byddai hyn yn caniatáu presenoldeb ym mhob un o gyfarfodydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ac yn gadael digon o amser i unrhyw ymchwiliadau gael eu cynnal.

Dywedodd yr Aelodau fod ganddynt hyder llawn yng ngallu'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd i ymgymryd â rôl y Dirprwy Swyddog Monitro, ond roeddynt yn awyddus iddi gael hyfforddiant a chefnogaeth i gyflawni'r rôl newydd.

PENDERFYNWYD:

- a) nodi'r cynnydd o ran penodi Swyddog Monitro; a
- b) cytuno â'r egwyddor o greu rôl Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro, i'w llenwi'n fewnol am 12 mis, gydag adolygiad o'r rôl cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a thalu Lwfans Cyfrifoldeb o £1,200 y flwyddyn.

